

HYWEL ab EDWIN (bu farw 1044), brenin Deheubarth

Enw: Hywel ab Edwin

Dyddiad marw: 1044

Rhiant: Edwin ab Einion

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: brenin Deheubarth

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

mab Edwin ab Einion a gor-wyr i [Hywel Dda](#). Pan fu'r cipiwr Rhydderch ap Iestyn farw yn 1033, daeth Hywel a'i frawd Maredudd, fel etifeddion hynaf [Hywel Dda](#), yn gydfrenhinoedd Deheubarth. Bu Maredudd farw yn 1035, gan adael Hywel i deyrnasu ar ei ben ei hun, ac ar ei ysgwyddau ef y cwmpodd y baich trwm o amddiffyn y De yn erbyn y Vikingiaid a chipiwr y Gogledd, [Gruffydd ap Llywelyn](#). Alltudiwyd ef gan [Gruffydd](#) yn 1042 neu 1043, eithr dychwelodd yn 1044, a'r Daniaid yn gynghreiriaid iddo, a lladdwyd ef mewn brwydr yn ymyl aber afon Tywi.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Hywel ab Edwin](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2519809](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

